CEDAR
Bwletin y Gaeaf

Chwefror 2026, Rhifyn 13

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd
CEDAR
Centre for Healthcare Evaluation, Device Assessment and Research

Mae CEDAR wedi ymrwymo i gefnogi gofal claf-ganolog, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, trwy ymchwil a gwerthuso ymyriadau iechyd, technolegau a gwasanaethau'r GIG.

CEDAR: Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd

Cenhadaeth CEDAR yw cydweithio â thimau clinigol i ddarparu ymchwil a gwerthuso ymatebol, effeithiol, o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y claf, er mwyn gwella canlyniadau i bobl yng Nghymru ac yn ehangach.

Newyddion CEDAR

Cyfarwyddwr Newydd CEDAR

- Llongyfarchiadau i Dr Judith White ar ei phenodiad yn Ddirprwy Gyfarwyddwr newydd CEDAR!
- Mae aelodau'r tîm wedi mynychu sawl cynhadledd a digwyddiad gwobrwyo'r chwarter hwn. Yng Ngwobrau GIG Cymru, cafodd prosiect CEDAR, Datblygu Arolwg Profiad Pobl GIG Cymru, ei roi ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.
- Aeth y tîm hefyd i Wobrau Arloesi MediWales, Cynhadledd Cymdeithas Broffesiynol Economeg Iechyd a Chanlyniadau Ymchwil (ISPOR) Ewrop yng Nglasgow, a Chynhadledd y Byd ar Ymchwil Ansoddol ym Madrid.
- Mae ein ffrwd waith laith mewn Iechyd wedi cyrraedd ei 100 dilynwr cyntaf ar Instagram – gallwch ddilyn y cyfrif yn 'laithmewniechyd_gig'.

Cyhoeddiadau Diweddar:

Da iawn i aelodau tîm CEDAR am eu cyhoeddiadau'r chwarter hwn sy'n cynnwys:

- Gwerthusiad CEDAR o'r Clinig Syndrom Heb Enw (SWAN) a ddangosodd y gall ddarparu gofal mwy cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio mwy ar y claf o'i gymharu â phrofiadau gofal blaenorol cleifion. Mae'r gwerthusiad wedi'i gyhoeddi yn 'Rare'. Gallwch ddarllen y cyhoeddiad llawn yma: doi.org/10.1016/j.rare.2026.100117.
- Mae CEDAR wedi cyhoeddi'r arolwg mwyaf cynhwysfawr o agweddau tuag at ddeallusrwydd artiffisial gofal iechyd yng Nghymru hyd yma, a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â Thrawsnewid Gwerth. Mae'r cyhoeddiad yn y Journal of Medical Internet Research yma: doi:10.2196/81543.

Yn Y Rhifyn Hwn

Newyddion CEDAR
Uchafbwyntiau diweddar gan y tîm

Uchafbwyntiau'r Prosiect
Darganfyddwch pa brosiectau sydd wedi camu ymlaen yn CEDAR y chwarter hwn.

Sbotolau Staff
Clywch gan Jodie Bartlett, gweinyddwr CEDAR.



Uchafbwyntiau'r Prosiect

Clinig Gofal Integredig Pediatrig: Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)

Mae CEDAR wedi cynnal dadansoddiad adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad (SROI) o'r model clinig gofal integredig pediatrig amlddisgyblaethol (PIC MDT) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Yn y model newydd hwn, mae apwyntiadau cleifion allanol pediatrig gofal eilaidd yn cael eu cynnal mewn canolfan feddygol leol yn hytrach nag mewn ysbyty, mewn ymgynghoriad ar y cyd â'r meddyg teulu. Mae SROI yn defnyddio mesurau o werth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Gwelsom gynnydd ym moddhad swydd staff o ganlyniad i gyfathrebu gwell, cyd-ddealltwriaeth, cydberchnogaeth a chyfleoedd dysgu. Treuliodd rhieni llai o amser i ffwrdd o'r gwaith ac roedd eu lles emosiynol yn well, a threuliodd plant llai o amser i ffwrdd o'r ysgol. Ar y cyfan, dangosodd y dadansoddiad, am bob £1 a fuddsoddir, fod model PIC MDT yn adennill £5.61.

Anemia Amlawdriniaethol

Mae CEDAR yn cydweithio â'r Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), a thimau Trawsnewid Gwerth (rhan o Berfformiad a Gwella GIG Cymru) i gynnal dadansoddiad ar raddfa fawr o anemia cyn llawdriniaeth mewn cleifion sy'n cael llawdriniaeth ddewisol fawr ledled Cymru. Mae anemia cyn llawdriniaeth a diffyg haearn yn gyflyrau cyffredin ond nid ydynt yn cael eu cydnabod yn ddigonol ac maent yn gysylltiedig â chanlyniadau ôl-driniaethol andwyol.

Gan ddefnyddio data gan dros 46,000 o gleifion llawfeddygol unigryw, bydd yr astudiaeth hon yn asesu cysylltiadau rhwng statws anemia, is-grwpiau diffyg haearn, a chanlyniadau allweddol gan gynnwys hyd arhosiad, ail-dderbyniadau i'r ysbyty, a marwolaethau yn y tymor byr a'r tymor hir.

Drwy gynhyrchu tystiolaeth gadarn o'r byd go iawn ar raddfa fawr, nod y prosiect hwn yw mesur baich anemia cyn llawdriniaeth ar y system gofal iechyd a llywio strategaethau ar gyfer ei hadnabod yn gynharach ac optimeiddio. Ochr yn ochr â hynny, mae BHNOG wedi sefydlu Llwybr Anemia Amlawdriniaethol Cymru Gyfan i wella'r broses o adnabod a rheoli cleifion ag anemia. Mae rhagor o fanylion am y llwybr hwn ar gael yma. Bydd canfyddiadau'r dadansoddiad hwn yn cael eu cyflwyno i'w cyhoeddi yn fuan a byddant yn cael eu rhannu'n eang.

Datgyflyru sy'n digwydd yn yr Ysbyty

Mae datgyflyru sy'n digwydd yn yr ysbyty (HAD) yn syndrom cymhleth, aml-barth a all ddigwydd yn ystod arhosiad yn yr ysbyty mewn cyn lleied â 24 awr, a all arwain at niwed sylweddol. Mae CEDAR wedi arwain prosiect dulliau cymysg sy'n cwmpasu sawl cam, gan gynnwys adolygiad llenyddiaeth systematig, ymgynghoriad manwl â rhanddeiliaid, a datblygu a phrofi mesur asesu clinigol newydd.

Cymerodd 140 o aelodau staff sy'n gweithio ledled Cymru ran mewn arolwg, gan rannu eu barn ar yr hyn oedd yn hanfodol i'w asesu er mwyn mesur HAD. Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda staff i ddeall y rhwystrau a'r hwyluswyr posibl i weithredu mesur yn ymarferol, a chynhaliwyd 11 o gyfweliadau gyda defnyddwyr gwasanaeth, aelodau o'r teulu, a gofalwyr, i glywed profiadau'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan HAD.

Yn dilyn datblygu mesur asesu clinigol a dwy rownd o brofion mewn dau fwrdd iechyd, derbyniwyd 529 o adroddiadau asesu i'w dadansoddi. Ochr yn ochr ag adborth gan staff a oedd yn ymwneud â phrofi, defnyddiwyd data i wella'r mesur yn ailadroddol i'w ddefnyddio'n ymarferol. Roedd yr adborth yn gadarnhaol, gydag aelodau staff yn cytuno bod y mesur yn gallu nodi a monitro HAD cyn gynted â phosibl. Cyflawnodd y prosiect y nod o ddarparu mesur cynhwysfawr, sydd bellach yn cael ei gyflwyno mewn ysbytai ledled Cymru ac wedi'i enwi'n mesur Dangosydd Rhybudd Cynnar ar gyfer Datgyflyru (DEWI). Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ddilysu'r mesur ymhellach, gan sicrhau y gellir ei ddefnyddio'n eang.

Cyflwyno'r mesur DEWI newydd yn yr Uwchgynhadledd Atal Datgyflyru Genedlaethol gyntaf.

DEWI
Deconditioning Early Warning Indicator

Ar 4ydd Tachwedd 2025, cynhaliwyd yr Uwchgynhadledd Atal Datgyflyru Genedlaethol gyntaf yn Stadiwm Dinas Caerdydd, ac fe'i mynychwyd gan glinigwyr o bob cwr o Gymru, yn ogystal â Gogledd Iwerddon. Ymhlith y

siaradwyr roedd Jeremy Miles MS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ogystal â Phrif Weithredwr newydd GIG Cymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, Jacqueline Totterdell, yr Athro Brian Dolan, a'r Athro Sally Lewis.

Roedd CEDAR yn bresennol i gyflwyno'r mesur DEWI, a ddatblygwyd i adnabod Datgyflyru sy'n digwydd yn yr Ysbyty. Mae'r mesur hwn yn cefnogi staff i nodi newidiadau mewn cyflwr a chyflymu cymorth clinigol briodol wedi'i thargedu, i helpu lleihau effeithiau hirdymor datgyflyru, yn ogystal â hyrwyddo annibyniaeth defnyddwyr gwasanaeth.





Cyflwyno'r mesur DEWI newydd yn yr Uwchgynhadledd Atal Datgyflyru Genedlaethol gyntaf.

Prosiect Dan Sylw – CADARN

CEDAR yw'r partner cyflawni ar gyfer CADARN - Gweithredu Cydweithredol ar gyfer Gyrru a Chyflymu Ymchwil yn Genedlaethol - ymyrraeth ar lefel system a ddatblygodd fy Menter Canser Moondance i ddatgloi potensial ymchwil canser ledled Cymru. Bydd CADARN yn canolbwyntio ar alluogi recriwtio cyflymach, mynediad tecach at astudiaethau, ac ymchwil sy'n gwella gofal mewn lleoliadau byd go iawn.

Gan weithio gyda'r GIG, y gymuned ymchwil a rhanddeiliaid allweddol, mae CADARN yn dod â strwythur, ffocws cyffredin a chydlynu cenedlaethol i gyflawni ymchwil trwy gyfres o rowndiau sy'n canolbwyntio ar safleoedd tiwmor. Mae'r rownd gyntaf yn canolbwyntio ar ganser y colon a'r rhefr. Mae pob rownd CADARN yn dechrau gyda Chyfarfod Cenedlaethol, lle cytunir ar flaenoriaethau cyffredin a gwneir penderfyniadau clir ynghylch pa astudiaethau a fydd yn cael eu datblygu.

Yn dilyn Cyfarfod Cenedlaethol y colon a'r rhefr llwyddiannus ym mis Tachwedd 2025, mae CEDAR wedi bod yn darparu cymorth cenedlaethol cydlynol i roi'r astudiaeth a ddewiswyd, Treial BiCCC, ar waith, ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru, gan gefnogi sefydlu safleoedd a recriwtio cyflym. Mae CEDAR hefyd yn gweithio gyda byrddau iechyd i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i gyflwyno astudiaethau.

Ochr yn ochr â hynny, mae CEDAR yn gweithio ar y cyd i ddatblygu syniadau ymchwil newydd a gynhyrchwyd yn ystod sesiwn pwll tywod y Cyfarfod Cenedlaethol, gan helpu eu datblygu i fod yn gynigion ymchwil ymarferol a chyflawnadwy.

Sbotolau Staff

Rydym yn siarad â Jodie Bartlett, gweinyddwr CEDAR.

Dywedwch wrthym amdanoch chi a'ch rôl:
Ymunais â CEDAR ar ddechrau mis Hydref, yn dilyn dechrau fy ngyrfa gyda'r GIG yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Cyn hyn, roeddwn i'n gweithio mewn fferyllfa gymunedol am dros 10 mlynedd, gan ennill profiad helaeth mewn gofal cleifion a rheoli meddyginiaethau. Mae wedi bod yn bleser ymuno â thîm CEDAR, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i ddysgu, cyfrannu a thyfu ochr yn ochr â fy nghydweithwyr.

Pa 3 gair fyddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio CEDAR?
Ysbrydoledig, Ymroddedig, Hwyl

Beth sy'n ffaith amdanoch chi y byddai pobl yn synnu ohoni?
Rwy'n achubwr bywyd cymwys.

Beth yw rhywbeth rydych chi'n arbennig o falch ohono?
Fy ngheffyl Bella, a 2 gi Poppy a Luna

Os oes gennych gynnig ymchwil ac yr hoffech siarad â'n tîm, cysylltwch â ni neu llenwch ein ffurflen gais am gefnogaeth

Ewch i'n gwefan: